STATUTORY INSTRUMENTS

1969 No. 259 (L.5)

JUVENILE COURTS AND OFFENDERS

The Summary Jurisdiction (Children and Young Persons) (Welsh Forms) Rules 1969

Made - - -	1*st March* 1969
Laid before Parliament	14*th March* 1969
Coming into Operation	1*st June* 1969

The Lord Chancellor, in exercise of the power conferred on him by section 15 of the Justices of the Peace Act 1949(a), as extended by section 122 of the Magistrates' Courts Act 1952(b) and section 2 of the Welsh Language Act 1967(c), after consultation with the Rule Committee appointed under the said section 15, hereby makes the following Rules :—

1. These Rules may be cited as the Summary Jurisdiction (Children and Young Persons) (Welsh Forms) Rules 1969 and shall come into operation on 1st June 1969.

2.—(1) In these Rules—

(*a*) "English form" means any form prescribed in the Summary Jurisdiction (Children and Young Persons) Rules 1933(d), as amended(e), corresponding to a Welsh form ;

(*b*) "Welsh form" means any form contained in Schedule 1 to these Rules.

(2) The Interpretation Act 1889(f) shall apply to the interpretation of these Rules as it applies to the interpretation of an Act of Parliament.

3. Subject to the provisions of these Rules, Welsh forms may be used, with such variations as the circumstances may require, in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire.

4. Both a Welsh and an English form may be included in the same document.

(a) 1949 c.101. (b) 1952 c. 55.

(c) 1967 c.66.

(d) S.R. & O. 1933/819 (Rev. XI, p.573: 1933, p.959).

(e) The relevant amending instruments are S.I. 1962/1591, 1963/2120 (1962 II, p.1844; 1963 II, p.2104).

(f) 1889 c.63.

5.—(1) Where only a Welsh form, specified in Part I of Schedule 1 to these Rules, or only the corresponding English form, is used in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire, there shall be added the words in Welsh and English contained in Schedule 2 to these Rules; and the clerk of the magistrates' court concerned shall, if any person upon whom that form is served so requests, provide him with the corresponding English or Welsh form.

(2) In this Rule the expression "served" shall include the sending, giving or other delivery of a document.

6. In case of any discrepancy between an English and a Welsh text the English text shall prevail.

Dated 1st March 1969.

Gardiner, C.

SCHEDULE 1

Rule 2

INDEX TO WELSH FORMS

PART I

Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

Number of Form in Summary Jurisdiction (Children and Young Persons) Rules 1933	
1.	Summons to child or young person [and to parent or guardian]: offence.
2.	Summons for attendance of parent or guardian of child or young person: offence.
4.	Summons for attendance of parent or guardian: care, protection or control.
4B.	Notice to parent or guardian under section 34(2) of the Act.
4C.	Notice to parent under rule 24.
8.	Notice of extended remand: offence.
13A.	Attendance centre order: offence.
13B.	Attendance centre order on failure to comply with requirement of probation order.
13C.	Attendance centre order: non-payment of sum of money.
37.	Notification of supervision order.
38.	Order varying or revoking supervision order.
40.	Supervision: summons after.

PART II

Form not requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

3.	Warrant for arrest of child or young person: offence.

PART I

Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

1

Gwŷs i blentyn neu berson ieuanc [ac i dad neu fam neu warcheidwad]: trosedd

Yn [Sir] . [Rhanbarth Llys Ynadon .]

At A.B. [a(c) E.F.] o

Cyflwynwyd hysbysiaeth heddiw gan C.D. eich bod chwi A.B., a chwithau'n blentyn [*neu* berson ieuanc dan ddwy ar bymtheg oed], ar y dydd o fis 19 , yn yn y (Sir) a enwyd uchod, wedi (*rhodder manylion am y trosedd*) yn groes i Ddeddf

[A chyflwynwyd hysbysiaeth ymhellach gan C.D. eich bod chwithau E.F. yn dad *neu* fam *neu* warcheidwad i'r dywededig A.B.]

Gan hynny gwysir chwi [y naill a'r llall ohonoch] i ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

(L.S.)

Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd uchod.

2

Gwŷs yn galw am bresenoldeb tad neu fam neu warcheidwad plentyn neu berson ieuanc: trosedd

Yn [Sir] [Rhanbarth Llys Ynadon .]

At C.D. o

Dygir cyhuddiad yn erbyn A.B., plentyn [*neu* person ieuanc dan ddwy ar bymtheg oed] y dywedir eich bod yn dad [*neu* fam, *neu* warcheidwad] iddo, gan honni ei fod ef/hi, ar y dydd o fis 19 , yn yn y [Sir] a enwyd uchod, wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*)..... yn groes i Ddeddf .

Gan hynny gwysir chwi i ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, a thrwy gydol y gweithrediadau.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

(L.S.)

Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd uchod.

4

Gwŷs am ymbresenoliad tad neu fam neu warcheidwad: gofal, amddiffyniad neu reolaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon .]

At B.B. [ac E.B.] o , tad *neu* fam/gwarcheidwad [rhieni] A.B. plentyn [*neu* person ieuanc *neu* person 17 oed] sydd i'w ddwyn gan gyngor sir/bwrdeistref sirol , sef yr awdurdod lleol [*neu* gan C.D., cwnstabl *neu* person awdurdodedig *neu* person y dodwyd ef/hi dan ei [g]oruchwyliad] gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, yn rhinwedd darpariadau adran 62 [*neu* 65 *neu* 66] o Ddeddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933 [*neu* adran 40 o Ddeddf Addysg 1944] am y rheswm (*rhodder y rheswm dros y cais*).

Gan hynny gwysir chwi trwy hyn i ymddangos gerbron y Llys hwnnw ar yr amser hwnnw ac yn y lle hwnnw ac i fod yn bresennol trwy gydol y gweithrediadau.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch dros y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

4B

Hysbysiad i dad neu fam/warcheidwad dan adran 34(2) *o'r Ddeddf*

At B.B. o
tad *neu* fam/gwarcheidwad A.B.

Bydded hysbys i chwi fod A.B. wedi ei restio a'i gyhuddo o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) [*neu* ei ddwyn i le diogel fel un y mae angen gofal, amddiffyniad neu reolaeth arno am y rheswm (*rhodder y rheswm yn nhermau adran* 2 *o Ddeddf Plant a Phersonau Ieuainc* 1963) *neu* fel un anhydrin *neu* un sydd ar gael ei ddwyn gerbron y Llys gan ei [g]oruchwyliwr].

Bydd A.B. yn ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn.

Gwneir y cais dan adran 62 [*neu* 65 *neu* 66] o Ddeddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933 [fel y'i cymhwysir dan adran 40 o Ddeddf Addysg 1944].

Dyddiedig (*Llofnod*)

Ar ran cyngor sir [bwrdeistref sirol]
[*neu* cwnstabl *neu* person awdurdodedig].

4C

Hysbysiad i dad neu fam dan reol 24

At C.B. o

Bydded hysbys i chwi fy mod wedi achwyn wrth y Llys Ieuenctid yn eistedd yn er sicrhau gorchymyn yn erbyn yr awdurdod lleol yn ei gyfarwyddo i ddyfod â A.B. gerbron y Llys am y rheswm fy mod yn methu ei r[h]eoli ef/hi.

Gwrandewir yr achwyniad gan y Llys ar ddydd , y dydd o fis 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn.

Os dymunwch gellwch siarad wrth y Llys amdano/amdani cyn i'r Llys ddyfod i benderfyniad ar yr achwyniad.

(*Arwyddwyd*) B.B.

8

Hysbysiad am estyn remandiad: trosedd

At A.B. o
(a elwir yma o hyn allan y diffynnydd)
ac at C.D., o
ac at E.F., o
(meichiau/meichiafon dros y diffynnydd hwnnw)

Bydd hysbys i chwi eich bod chwi, y diffynnydd, wedi eich remandio gan y Llys Ieuenctid a fu'n eistedd yn a'ch bod i ymddangos gerbron y Llys hwnnw ar y dydd o fis 19 , a bod y Llys Ieuenctid a fu'n eistedd yn heddiw yn eich absen wedi eich remandio chwi, y diffynnydd, i ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd y dydd o fis 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn.

Clerc y Llys Ieuenctid yn eistedd yn

13A

Gorchymyn canolfan mynychu: trosedd (*C.J. Act* 1948, *s.*19; *C.J. Act* 1961, *s.*10.)

Yn [Sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn

Mae'n ymddangos i'r Llys fod A.B. (a elwir yma o hyn allan y diffynnydd) yn blentyn heb fod dan ddeg oed [*neu* berson dan ddwy ar bymtheg oed] gan ei fod/bod wedi'i eni/geni, hyd y cafwyd gwybod, ar y dydd o fis , 19 ;
a heddiw [neu ar y dydd o fis , 19 ,] [wedi i'r diffynnydd gydsynio i sefyll ei brawf gebron yr ynadon,] fe'i cafwyd yn euog o drosedd y gall ynadon gosbi dyn mewn oed amdano â charchar, am fod y diffynnydd, ar y dydd o fis , 19 , wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

A chan fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoddi gwybod i'r Llys fod y canolfan mynychu a enwir yma ar gael ar gyfer derbyn o'r Llys bersonau o'i ddosbarth neu ei fath ef:

A chan fod y Llys wedi ei fodloni fod y canolfan mynychu yn un y gall y diffynnydd ei gyrraedd yn rhesymol o hawdd, o ystyried ei oedran, y moddion y gall ef eu defnyddio i fynd yno ac unrhyw amgylchiadau eraill:

[A chan fod y Llys o'r farn y byddai ymbresenoli am ddeuddeng awr yn ormodol, o ystyried y ffaith fod y diffynnydd dan bedair ar ddeg oed neu ryw amgylchiadau eraill, *neu* annigonol, o ystyried yr holl amgylchiadau:]

Gorchmynnir fod y diffynnydd i ymbresenoli yn y canolfan mynychu yn (*yma doder cyfeiriad y canolfan*) am y tro cyntaf ar y dydd o fis 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, ac wedi hynny ar yr adegau a bennir gan y swyddog a chanddo ofal y canolfan hwnnw, nes cwblhau cyfnod o ymbresenoli o awr.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 ,

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd uchod.

13B

Gorchymyn canolfan mynychu ar gyfer rhai sydd heb gyflawni gofynion gorchymyn profiannaeth (*C.J. Act* 1948, *ss.*6, 19; *C.J. Act* 1961, *s.*10.

Yn [Sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Mae'n ymddangos i'r Llys fod A.B. (a elwir yma o hyn allan y diffynnydd) yn blentyn heb fod dan ddeg oed [*neu* berson dan ddwy ar bymtheg oed] gan ei fod/bod wedi'i eni/geni, hyd y cafwyd gwybod, ar y dydd o fis , 19 ; ar y dydd o fis , 19 , fe'i cafwyd yn euog gan y Llys Ieuenctid yn eistedd yn o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), a gwnaeth y Llys hwnnw orchymyn profiannaeth, a hwnnw [yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas] yn rhwymo'r diffynnydd i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon] , a hefyd yn rhwymo'r diffynnydd i (*rhodder yma'r gofyn nas cyflawnwyd*):

Ac y mae'r diffynnydd heddiw wedi ymddangos [*neu* wedi cael ei ddwyn] gerbron y Llys a enwyd gyntaf ac y mae'r Llys wedi ei fodloni ei fod heb gyflawni'r gofynion hynny yn y gorchymyn hwnnw gan iddo (*rhodder yn gryno fanylion am y methiant*)

A chan fod y Llys wedi ei hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod y canolfan mynychu a enwir yma ar gael ar gyfer derbyn o'r Llys bersonau o'i ddosbarth neu ei fath ef:

A chan fod y Llys wedi ei fodloni fod y canolfan mynychu yn un y gall y diffynnydd ei gyrraedd yn rhesymol o hawdd, o ystyried ei oedran, y moddion y gall ef eu defnyddio i fynd yno ac unrhyw amgylchiadau eraill:

[A chan fod y Llys o'r farn y byddai ymbresenoli am ddeuddeng awr yn ormodol, o ystyried y ffaith fod y diffynnydd dan bedair ar ddeg oed neu ryw amgylchiadau eraill, *neu* yn annigonol, o ystyried yr holl amgylchiadau:]

Gorchmynnir fod y diffynnydd am ei fod heb gyflawni'r gofynion hynny i ymbresenoli yn y canolfan mynychu yn (*rhodder cyfeiriad y canolfan*) am y tro cyntaf ar y .....dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, ac wedi hynny ar yr adegau a bennir gan y swyddog a chanddo ofal y canolfan hwnnw nes cyflawni cyfnod o ymbresenoli o awr.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd gyntaf uchod.

13C

Gorchymyn canolfan mynychu: swm o arian heb ei dalu (*C.J. Act* 1948, *s.* 19; *C.J. Act* 1961, *s.*10.)

Yn [Sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn

	£	s.	d.
Dirwy ...			
Iawn ...			
Costau ...			
Cyfanswm			
Taliadau rhannol			
Gweddill			
Oriau o ymbresenoli sydd ar ôl			

Mae'n ymddangos i'r Llys fod A.B. (a elwir yma o hyn allan y diffynnydd) yn blentyn heb fod dan ddeg oed [*neu* berson dan ddwy ar bymtheg oed] gan ei fod/bod wedi'i eni/geni, hyd y cafwyd gwybod, ar y dydd o fis , 19 ; ar y dydd o fis , 19 , gan y Llys leuenctid yn eistedd yn , fe'i cafwyd yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a dyfarnwyd iddo dalu dirwy o [, a yn iawndal,] [a at gostau,] [yn rhandaliadau wythnosol [*Neu* misol] o] a'r [rhandaliad cyntaf tuag at y] swm/symiau hynny i'w dalu erbyn y dydd o fis , 19 .

[A chan fod hysbysiad am ddirwy wedi ei roddi i'r diffynnydd ac ymholiad ynghylch ei amgylchiadau wedi ei wneuthur yn ddiweddarach gan y Llys cyfaddas yn ei bresenoldeb:]

A chan fod y diffynnydd [wedi gwneuthur taliad rhannol o ond] heb dalu [gweddill o]:

Ac y mae'r diffynnydd wedi ei ddodi dan oruchwyliad [*neu* y mae'r Llys wedi ei fodloni ei bod yn annymunol [*neu* yn anymarferol] dodi'r ddiffynnydd dan oruchwyliad am y rheswm (*rhodder y rheswm*)]:

[A chan [nad oedd yn ymarferol sicrhau] [fod] adroddiad ynghylch ymddygiad ac amgylchiadau'r diffynnydd gan y person y dodwyd ef dan ei arolygiaeth [wedi cael ei ystyried yn y modd priodol]:]

A chan fod y Llys wedi ei hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod y canolfan mynychu a enwir ar gael ar gyfer derbyn o'r Llys bersonau o'i ddosbarth neu ei fath ef:

A chan fod y Llys wedi ei fodloni fod y canolfan mynychu yn un y gall y diffynnydd ei gyrraedd yn rhesymol o hawdd, o ystyried ei oedran, y moddion y gall ef eu defnyddio i fynd yno ac unrhyw amgylchiadau eraill:

[A chan fod y Llys o'r farn y byddai ymbresenoli am ddeuddeng awr yn ormodol, o ystyried y ffaith fod y diffynnydd dan bedair ar ddeg oed neu ryw amgylchiadau eraill, neu yn annigonol, o ystyried yr holl amgylchiadau:]

Gorchmynnir fod y diffynnydd i ymbresenoli yn y canolfan mynychu (*yma rhodder cyfeiriad y canolfan*) am y tro cyntaf ar y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, ac wedi hynny ar yr adegau a bennir gan y swyddog a chanddo ofal y canolfan hwnnw nes cyflawni cyfnod o awr, oni thelir cyn hynny y swm/symiau [*neu* gweddill] hynny.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

37

Hysbysrwydd am orchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon .]

Gerbron y Llys Ieuenctid a fu'n eistedd yn .

At A.B. o

Y mae'r Llys wedi gwneuthur gorchymyn, gan ddilyn adran 66 o Ddeddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933, yn eich dodi dan oruchwyliad am y cyfnod o . Mae hyn yn golygu y bydd eich goruchwyliwr yn ymweled â chwi, yn eich cynghori, gan fod yn gefn ac yn gymorth i chwi [a phan fo'n angenrheidiol bydd yn ceisio sicrhau gwaith addas i chwi].

Gall eich goruchwyliwr ar unrhyw adeg tra bo'r gorchymyn yn dal mewn grym fynd â chwi gerbron llys plant, a gall y llys wedyn ddirymu neu ddiwygio'r gorchymyn.

Gellwch chwi eich hunan wneud cais am ddirymu'r gorchymyn.

Os dygir chwi eto gerbron llys ieuenctid gan eich goruchwyliwr gall y llys, os yw o'r farn fod hynny'n ddymunol er eich lles, orchymyn eich anfon i ysgol warchod neu eich rhoddi yng ngofal person cymwys.

Y mae'r gorchymyn goruchwyliad yn cynnwys y gofynion a ganlyn:—
eich bod chwi (gan eich bod dan 14 oed *neu* eich bod wedi cydsynio â'r gofyn hwn) i fyw yn
[sydd yn hostel/gartref profiannol cymeradwy am (*gyfnod hyd at* 12) mis]:
[eich bod yn cytuno i dderbyn triniaeth am (*gyfnod hyd at* 12) mis fel claf yn preswylio mewn ysbyty neu gartref nyrsio meddyliol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 *neu* fel claf heb fod yn preswylio yn (*rhodder enw'r sefydliad neu'r lle*) neu gan neu dan gyfarwyddyd (*rhodder enw meddyg wedi ei gofrestru'n gyflawn*)].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,
Clerc y Llys Ieuenctid yn eistedd yn

38

Gorchymyn yn newid neu'n diddymu gorchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Gan fod gorchymyn goruchwyliad dan adran 66 o Ddeddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933 o berthynas ag A.B. o (a elwir yma o hyn allan yr atebydd) wedi ei wneuthur gan y Llys hwn [*neu* gan y Llys Ieuenctid a fu'n eistedd yn a'r Llys hwnnw wedi enwi'r Llys hwn yn y gorchymyn hwnnw] yn dodi'r atebydd dan oruchwyliad C.D. (a elwir yma o hyn allan y ceisiwr) am gyfnod o :

Y mae'r ceisiwr [*neu* yr atebydd] [*neu* E.F. y cyflwynwyd yr atebydd i'w ofal fel person cymwys] wedi gwneuthur cais am ddirymu'r gorchymyn:

[*neu* Y mae'r ceisiwr wedi gwneuthur cais am ddiwygio'r gorchymyn trwy ddodi ynddo [yn lle'r enw blaenorol] enw rhanbarth llys ynadon [a thrwy gynnwys ynddo ofynion eraill yn lle'r rhai blaenorol]:]

[*neu* Y mae'r ceisiwr [*neu* yr atebydd] [*neu* E.F. y cyflwynwyd yr atebydd i'w ofal fel person cymwys] wedi gwneuthur cais am ddiwygio'r gorchymyn trwy ei newid i gynnwys goruchwyliad gan berson arall [*neu* trwy ddileu rhai o ofynion y gorchymyn] [*neu* trwy gynnwys yn y gorchymyn ofynion y gallesid eu cynnwys ynddo'n wreiddiol *neu* trwy estyn cyfnod y goruchwyliad]:]

[*neu* Y mae'r Llys wedi ei fodloni fod yr atebydd yn bwriadu preswylio [*neu* yn preswylio] yn yr Alban:]

Gorchmynnir trwy hyn fod y gorchymyn a enwyd uchod i'w ddirymu *neu* ddiwygio fel y canlyn:—

[*neu* ac y mae'r Llys trwy hyn yn enwi Llys yn fel y llys awdurdod diannod a chanddo awdurdod i weinyddu cyfraith yn y lle yn yr Alban y mae'r [*neu* bydd yr] atebydd yn preswylio ynddo ac y mae'n dodi'r atebydd am y cyfnod o (sef y gweddill o'r cyfnod a enwyd yn y gorchymyn goruchwyliad a enwyd uchod) dan oruchwyliad y swyddog profiannaeth neu berson arall a benoder gan y Llys hwnnw].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H., ,
Ynad Heddwch yn y (sir) a enwyd uchod.

40

Goruchwyliad: gwŷs wedi

Yn [Sir] . [Rhanbarth Llys Ynadon .]

At A.B. o
ac at C.D. o

Gwnaethpwyd Cais ar ffurf Achwyniad heddiw gan E.F. i'r perwyl ei bod yn angenrheidiol er eich lles chwi, A.B., a chwithau dan ddwy ar bymtheg oed, eich dwyn gerbron y Llys Ieuenctid ynglŷn â'r Gorchymyn a roddwyd gan y (*enwer y Llys Ieuenctid neu Lys arall a roddodd y Gorchymyn*) a fu'n eistedd yn ar y dydd o fis 19 , sef y Gorchymyn a'ch gosododd dan oruchwyliad E.F.:

A chan yr honnir mai chwi, C.F., yw tad [*neu* fam *neu* warcheidwad] A.B.;

Gan hynny gwysir chwi [y naill a'r llall ohonoch] i ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, fel y galler delio â chwi, A.B., yn ôl y gyfraith.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

(L.S.)
Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd uchod.

PART II

Form not requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

3

Gwarant i restio plentyn neu berson ieuanc: trosedd.

Yn [Sir] . [Rhanbarth Llys Ynadon .]

At holl gwnstabliaid

Cyflwynwyd hysbysiaeth ar lw [*neu* ddatganiad] heddiw gan A.B. fod C.D. (a elwir yma o hyn allan y diffynnydd), plentyn [*neu* berson ieuanc dan ddwy ar bymtheg oed], ar y dydd o fis 19 , yn yn y [Sir] a enwyd uchod, wedi (*rhodder manylion am y trosedd*) yn groes i Ddeddf . Gorchmynnir i chwi gan hynny restio'r diffynnydd yn ddiymdroi a'i ddwyn gerbron y Llys Ieuenctid nesaf a fydd yn eistedd yn i ateb yr hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

(L.S.)
Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd uchod.

Cefnysgrifiad

Gorchmynnir fod y diffynnydd ar ôl ei restio i'w ryddhau wedi iddo ymrwymo yn y swm o £ , gyda meichiau [feichiau] yn y swm o £ [bob un] y bydd yn ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a enwyd yma am o'r gloch y bore/prynhawn, yn eisteddiad nesaf y Llys hwnnw.

Ynad Heddwch yn y [Sir] a enwyd uchod.

Rule 5 SCHEDULE 2

Darperir y ddogfen hon yn Gymraeg/Saesneg os bydd arnoch ei heisiau. Dylech wneud cais yn ddi-oed i Glerc Llys yr Ynadon (*rhodder yma'r cyfeiriad*).....

This document will be provided in Welsh/English if you require it. You should apply immediately to the Clerk of the Magistrates' Court (*address*).....

EXPLANATORY NOTE

(*This Note is not part of the Rules.*)

These Rules provide for the use of Welsh forms in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire involving children and young persons. They include provision authorising the use of bilingual forms in connection with such proceedings and provide that in certain cases a person served with a form in one language may require the form in the other language.